

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Minister for Health and Social Services
- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon
Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services

Pwysau Ariannol (Ymddiriedolaeth GIG Abertawe) Financial Pressure (Swansea NHS Trust)

C9 David Lloyd: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gydag Ymddiriedolaeth GIG Abertawe ynglŷn â phwysau ariannol? OAQ0458(HSS)

Q9 David Lloyd: What discussions has the Minister held with Swansea NHS Trust regarding financial pressures? OAQ0458(HSS)

The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons): My officials have met regularly with the trust to review the financial position. The Assembly has commissioned an independent financial review to verify the extent of the problem and to seek acceptable solutions to resolve the deficit while maintaining patient services. This review is currently ongoing.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons): Mae fy swyddogion wedi cyfarfod yn rheolaidd â'r ymddiriedolaeth i adolygu'r sefyllfa ariannol. Mae'r Cynulliad wedi comisiynu adolygiad ariannol annibynnol i gadarnhau maint y broblem ac i chwilio am ffordd dderbyniol o ddatrys y diffyg ariannol, a chynnal gwasanaethau i gleifion. Mae'r adolygiad yn parhau.

Sefyllfa Gyllidol Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru The Financial Position of Ceredigion and Mid Wales NHS Trust

C10 Elin Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sefyllfa gyllidol Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru? OAQ0476(HSS)

Q10 Elin Jones: Will the Minister make a statement on the financial position of Ceredigion and Mid Wales NHS Trust? OAQ0476(HSS)

Brian Gibbons: Ar hyn o bryd, mae Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a'r Canolbarth yn rhagweld diffyg o £1.1 miliwn ar gyfer 2005-06. Mae'r ymddiriedolaeth a'r bwrdd iechyd lleol yng Ngheredigion yn

Brian Gibbons: The Ceredigion and Mid Wales NHS Trust is currently forecasting a deficit of £1.1 million for 2005-06. The trust and local health board in Ceredigion are developing proposals to ensure that the

datblygu cynlluniau i sicrhau bod y gymuned yn llwyddo i fyw o fewn y dyraniadau ariannol a neilltuwyd ar gyfer eleni ac yn y dyfodol. Fodd bynnag, rhaid i unrhyw newidiadau a wneir i'r gwasanaethau fod yn gyson â nodau'r 'Cynllun Oes'.

community lives within financial allocations for this year and in the future. Any service changes made, however, must be consistent with the aims of 'Designed for Life'.

Gofal Iechyd (Canolbarth a Gorllewin Cymru) Healthcare (Mid and West Wales)

Q11 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on healthcare in Mid and West Wales? OAQ0439(HSS)

C11 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ofal iechyd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ0439(HSS)

Brian Gibbons: 'Designed for Life' includes action to improve health, social care and wellbeing for all, and to services. It will focus, in the first three years, on improving coronary heart disease, cancer, mental health services for older people and children, and services for those with chronic diseases and awaiting elective treatment.

Brian Gibbons: Mae 'Cynllun Oes' yn cynnwys mesurau i wella iechyd, gofal cymdeithasol a lles pawb, ac i wella gwasanaethau. Yn ystod y tair blynedd cyntaf, bydd yn canolbwyntio ar wella clefyd coronaidd y galon, canser, gwasanaethau iechyd meddwl i bobl hŷn a phlant, a gwasanaethau i'r rheini sydd ag afiechydon cronig ac sy'n aros am driniaeth ddewisol.

*Tynnwyd cwestiwn 12, OAQ0505(HSS), yn ôl.
Question 12, OAQ0505(HSS), is withdrawn.*

Gwasanaethau Iechyd Meddwl (Plant sy'n Derbyn Gofal) Mental Health Services (Looked-after Children)

Q13 David Melding: Will the Minister make a statement on mental health services for looked-after children in Wales? OAQ0452(HSS)

C13 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru? OAQ0452(HSS)

Brian Gibbons: The commissioning and provision of mental health services for children who are looked after in Wales are included within each of the four tiers of the overall framework for child and adolescent mental health services, and are the joint responsibility of education, social and health services.

Brian Gibbons: Mae'r gwaith o gomisiynu a darparu gwasanaethau iechyd meddwl i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi'i gynnwys ym mhob un o'r pedair haen yn y fframwaith cyffredinol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed, ac addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd sy'n rhannu'r cyfrifoldeb drosto.

Cynlluniau i Wella Triniaeth Canser Plans to Improve Cancer Treatment

Q14 Jenny Randerson: What plans does the Minister have to improve cancer treatment? OAQ0495(HSS)

C14. Jenny Randerson: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella triniaeth cancer? OAQ0495(HSS)

Brian Gibbons: Tackling cancer remains one of the Welsh Assembly Government's top priorities for the NHS in Wales. Our strategy for improving access to, and the

Brian Gibbons: Mynd i'r afael â chanser yw un o brif flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer y GIG yng Nghymru o hyd. Ein strategaeth ar gyfer gwella ansawdd

quality of, treatments is through the progressive implementation of our national cancer standards and National Institute for Clinical Excellence cancer service guidance.

triniaethau, a sicrhau bod y triniaethau hynny ar gael i ragor o bobl, yw drwy weithredu'n raddol ein safonau cenedlaethol ar gyfer canser a chanllawiau gwasanaethau canser y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

Gofalwyr yng Nghymru Carers in Wales

Q15 Denise Idris Jones: What action has the Welsh Assembly Government taken to support carers in Wales? OAQ0450(HSS)

C15 Denise Idris Jones: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cymryd i gefnogi gofalwyr yng Nghymru? OAQ0450(HSS)

Brian Gibbons: We continue to work with the carers' strategy review panel to implement our carers strategy and to encourage local statutory authorities to develop services for carers. We provide funding for all Wales's carers' voluntary organisations and remain committed to leading by example on implementing carer-friendly employment policies.

Brian Gibbons: Yr ydym yn parhau i weithio gyda phanel adolygu'r strategaeth gofalwyr i weithredu'r strategaeth gofalwyr ac i annog awdurdodau statudol lleol i ddatblygu gwasanaethau i ofalwyr. Yr ydym yn rhoi arian i holl gyrff gwirfoddol gofalwyr Cymru ac yr ydym yn parhau i ymrwymo i arwain drwy esiampl ym maes polisiau cyflogaeth sy'n cynorthwyo gofalwyr.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

Elfen Chwaraeon Portffolio'r Gweinidog Sport Element of the Minister's Portfolio

Q9 Nick Bourne: Will the Minister make a statement on the funding of the sport element of his portfolio? OAQ0430(CWS)

C9 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ariannu elfen chwaraeon ei bortffolio? OAQ0430(CWS)

The Minister for Culture, Welsh Language and Sport (Alun Pugh): When the National Assembly for Wales was established in 1999, its sports budget was £6.8 million. By the start of the Welsh Assembly Government's second term, almost £12 million was being invested annually, and, by 2007-08, the overall sports budget, when confirmed, will have risen to over £25 million.

Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh): Pan sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999, £6.8 miliwn oedd y gyllideb chwaraeon. Ar ddechrau ail dymor Llywodraeth y Cynulliad, yr oedd bron £12 miliwn yn cael ei fuddsoddi bob blwyddyn, ac, erbyn 2007-08, bydd y gyllideb chwaraeon at ei gilydd, pan gaiff ei chadarnhau, yn codi i dros £25 miliwn.

*Tynnwyd cwestiwn 10, OAQ0466(CWS), yn ôl.
Question 10, OAQ0466(CWS), is withdrawn.*

Marchnadoedd ar gyfer Gwaith Artistiaid yng Nghymru Markets for the Work of Artists in Wales

Q11 John Griffiths: Will the Minister make a statement on developing markets for the

C11 John Griffiths: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu marchnadoedd ar

work of artists in Wales? OAQ0408(CWS)

gyfer gwaith artistiaid yng Nghymru?
OAQ0408(CWS)

Alun Pugh: We are committed to developing the economic impact of our artistic community. Through our arts council, we fund initiatives including supporting artists at contemporary art fairs, eisteddfodau and the Principality Collectorplan. I am sure you will be pleased to know that there are two Collectorplan galleries in Newport: the Newport Museum and Art Gallery, and the GPF Gallery, in George Street.

Alun Pugh: Yr ydym wedi ymrwymo i ddatblygu effaith economaidd ein cymuned artistig. Drwy gyngor y celfyddydau, yr ydym yn ariannu mentrau sy'n cynnwys cynorthwyo artistiaid mewn ffeiriau celf cyfoes, eisteddfodau a Chynllun Casglu Principality. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn falch o glywed bod dwy oriel Cynllun Casglu yng Nghasnewydd: Amgueddfa ac Oriol Gelf Casnewydd, ac Oriol GPF yn George Street.

Tîm Olympaidd Arbennig Cymru Wales Special Olympic Team

Q12 Catherine Thomas: What future support will the Wales Special Olympic team receive from the Welsh Assembly Government? OAQ0415(CWS)

C12 Catherine Thomas: Pa gefnogaeth y bydd tîm Olympaidd Arbennig Cymru yn ei derbyn i'r dyfodol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ0415(CWS)

Alun Pugh: As this is a project very close to your heart, I was pleased to support the Welsh Special Olympics team in the 2005 Special Olympics in Glasgow. I have not received any further requests for support from the team but would, of course, be happy to receive and consider any proposals for future support.

Alun Pugh: Gan fod y prosiect hwn yn agos iawn at eich calon, yr oeddwn yn falch o gael cefnogi tîm Olympaidd Arbennig Cymru yn y Gemau Olympaidd Arbennig 2005 yn Glasgow. Nid wyf wedi derbyn unrhyw geisiadau am gymorth pellach gan y tîm ond byddwn, wrth gwrs, yn fodlon derbyn ac ystyried unrhyw gynigion am gymorth yn y dyfodol.

Hyrwyddo Diwylliant Cymraeg yng Ngogledd Cymru Promoting Welsh Culture in North Wales

Q13 Denise Idris Jones: Will the Minister make a statement on the promotion of Welsh culture in north Wales? OAQ0420(CWS)

C13 Denise Idris Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo diwylliant Cymraeg yng ngogledd Cymru? OAQ0420(CWS)

Alun Pugh: Wales has a vibrant culture and north Wales plays host to a wealth of exciting cultural institutions and events, which we take every opportunity to promote, develop and support, as in all areas of Wales.

Alun Pugh: Mae gan Gymru ddiwylliant fywiog ac mae gogledd Cymru yn gartref i nifer o sefydliadau a digwyddiadau diwylliannol cyffrous, a byddwn yn manteisio ar bob cyfle i'w hyrwyddo, eu datblygu a'u cynorthwyo, fel y gwnawn ym mhob rhan o Gymru.

Pobl Ifanc a Chwaraeon Young People and Sports

Q14 Jenny Randerson: Will the Minister make a statement on how the Welsh Assembly Government is encouraging participation in sports by young people?

C14 Jenny Randerson: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon?

OAQ0468(CWS)

Alun Pugh: The Assembly Government's free swimming initiative plus successful programmes, such as Dragon Sport, Disability Sport, Sportsmatch, physical education and school sport and coaching plan, delivered by our sports council, are having positive effects on the number and quality of sport and physical activity opportunities for young people in schools and the community.

OAQ0468(CWS)

Alun Pugh: Mae menter nofio am ddim Llywodraeth y Cynulliad, yn ogystal â rhaglenni llwyddiannus fel Campau'r Ddraig, Chwaraeon Anabledd, Sportsmatch, y cynllun addysg gorfforol a hyfforddiant a chwaraeon ysgol, a gyflwynir gan ein cyngor chwaraeon, yn cael effaith gadarnhaol ar nifer y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc gymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer corff yn yr ysgol a'r gymuned, ac ar ansawdd y cyfleoedd hynny.

Y Celfyddydau y tu allan i Gaerdydd Arts Outside Cardiff

Q15 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on the Arts Outside Cardiff?
OAQ0407(CWS)

C15 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Celfyddydau y tu allan i Gaerdydd? OAQ0407(CWS)

Alun Pugh: The Welsh Assembly Government's investment in the Arts Outside Cardiff fund came on-stream last year with £250,000 being made available. This was increased to £1 million this year, and will rise to £2 million in 2006-07.

Alun Pugh: Buddsoddodd Llywodraeth y Cynulliad £250,000 yng nghronfa'r Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd y llynedd. Cododd hyn i £1 filiwn eleni, a bydd yn codi i £2 miliwn yn ystod 2006-07.